

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Orffennaf 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Evans, Geraint Evans, Arwel Pierce, Alan H Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim
2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant
3. Heddlu Gogledd Cymru:

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i PCSO Ella Parry i'r cyfarfod.

Cafwyd wybod bod PCSO Parry yn gweithio i'r Heddlu ers dwy flynedd ac yn gweithio yn ardal Dolgellau, Tywyn ac Aberdyfi - gan gynnwys y pentrefi gwledig. Adroddwyd bod galwadau i'r Heddlu o Fryncrug yn isel ond bod cwynion yn cael eu derbyn am geir yn goryrru.

Adroddwyd mai un PCSO sydd yn yr ardal ar hyn o bryd, yr oedd pedwar swyddog ond oherwydd salwch un yn unig sydd yn gweithio. Cafwyd wybod y byddai'r niferoedd i fyny i ddau swyddog ar ôl yr haf.

Adroddodd gynghorydd bod unigolyn wedi cymryd ugain munud i siarad gyda rhywun ar y ffon. 'Roeddynt yn dymuno adrodd am gar amheus a lladrata. Cafwyd wybod y byddai PCSO Parry yn edrych mewn i'r alwad ac awgrymodd y dylai'r cyhoedd ffonio rhif 999 os ydy rhywun ar yr eiddo. Cafwyd wybod bod "community alert" yn bodoli ble mae modd hysbysu pobl. Hefyd, adroddwyd mai "webchat" yw'r dull gorau o hysbysu'r Heddlu am faterion ac y dylid eu hysbysu, gan nad yw'r Heddlu o reidrwydd yn ymwybodol.

Trafodwyd sŵn o dy dafarn y Peniarth. Cafwyd wybod bod swyddog yn gweithio i'r Heddlu sydd yn gyfrifol am weithio efo tafarndai h.y. monitro tafarndai, "Pub Watch" a digwyddiadau fel Sesiwn Fawr. Cafwyd wybod y byddai'r Heddlu yn edrych mewn i natur trwydded y dafarn a bod gan yr Heddlu bwerau gorfodi.

Trafodwyd goryrru yn y pentref ac adroddwyd bod Go Safe yn medru cynnal arolwg cyflymder, a bod modd dechrau cynllun gwyllo cyflymder cymunedol.

Nodwyd bod trigolion lleol yn colli cael presenoldeb yr Heddlu yn cerdded ar y palmant, a bod cael yr Heddlu yn cerdded o gwmpas y pentref yn rhoi sicrwydd i'r henoed a chyfle i drigolion godi unrhyw achos neu bryder gyda'r Heddlu. Cytunodd PCSO Parry i gerdded o gwmpas y pentref dros yr wythnosau nesaf ac i ddefnyddio y gwn radar er mwyn mesur cyflymder modurwyr.

Trafodwyd problemau gyda cheir yn parcio ar balmentydd. Cafwyd wybod bod yr Heddlu yn medru ymateb os yw'r ceir yn creu rhwystr ee yn rhwystr cerddwyr rhag defnyddio palmentydd.

Cafwyd gwybodaeth gan Gynghorydd am Fore Coffi misol yn y Ganolfan, a gofynnodd PCSO Parry am wybodaeth bellach i'w anfon dros e-bost.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

4. Cais am gyfetholiad:

PENDERFYNIAD: Yn unfrydol, penderfynwyd y dylid cyfethol Richard Evans.

5. Derbyn cofnodion 20 Mehefin 2022:

Cafwyd drafodaeth am benderfyniad blaenorol y cyngor, sef i gynnig y cae chwarae i elusen Dolgoch. Yr oedd un cynghorydd yn dweud nad oedd y cyngor wedi penderfynu cynnig y tir i'r elusen.

Rhoddodd y Clerc wybodaeth i'r cyngor parthed penderfyniad blaenorol y cyngor, sef bod y cyngor wedi penderfynu ar ddechrau'r flwyddyn i gynnig y tir fel rhodd i'r elusen, a bod yr elusen wedi oedi am rai misoedd rhag penderfynu derbyn neu wrthod y cynnig. Yr oedd y mater parthed y trosglwyddiad tir yn parhau i fod yn nwylo'r cyfreithwyr.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.
I anfon copi o'r cofnodion ble yr oedd y cyngor wedi penderfynu trosglwyddo'r tir at y cynghorwyr.
Y Clerc i roi eitem ar agenda'r cyngor yn y dyfodol er mwyn diweddarau'r cyngor ar y trosglwyddiad tir.
I atgoffa CNC bod y cyngor yn disgwyl adroddiad yn dilyn cyfarfod safle yn gynharach yn y flwyddyn.
I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd parthed arwydd mynegbyst sydd wedi torri.

6. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101797	£191.66
Cyllid a Thollau EM	YG	101798	£48.00
Scrubadub	Glanhau	101799	£120.00
Playsafety Limited	ROSPA	101800	£100.80
Cwmni Tân Llŷn	Offer Tân	101801	£36.00
Jones & Jones	Pentref	101802	£756.00
Tywyn Tree Service	Mainc	101803	£600.00

Nodwyd bod y Clwb pêl-droed wedi talu'r anfoneb am ddefnydd o'r cae a'r Pafiliwn.

Nodwyd bod y gwrych yn y cae chwarae angen ei dorri.

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

7. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Ieuenctid - Cais i gynnal Diwrnod o Hwyl yn y Cae Chwarae:

PENDERFYNIAD: I roi caniatâd.
I beidio codi ffi am y defnydd
I hysbysu'r clwb pêl-droed am y defnydd, sef 14.00 ar 27 Gorffennaf
Cyng Alan H Jones i drefnu bod nyth cacwn yn y Pafiliwn yn cael ei symud.

8. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Gweithdai Ardal Ni 2035 - Cais am ddau gynrychiolydd i fynychu'r gweithdy:

PENDERFYNIAD: Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i fynychu, Cynghorwyr Bethan Lawton ag Alan H Jones.

9. Cyngor Gwynedd - Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - Ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy:

PENDERFYNIAD: I ohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y cyngor.

10. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - rhaglen waith Gorffennaf 2022:

Adroddwyd gan gynghorydd bod Cyngor Gwynedd wedi atgyweirio pont gerdded yn y pentref.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

11. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - Llythyr o ddiolch:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

-Cadeirydd y Cyngor wedi cyfarfod Cadeirydd Clwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug er mwyn trafod gwagio'r storffeydd ac i gael sgip

-Bod angen profi'r dŵr yn y Pafiliwn am glefyd y lleng filwyr (legionella)

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth parthed y draffodaeth am y wagio'r storffeydd ac i drefnu sgip gwastraff cymysg gan unai Abba Skip, Dyfi Skips neu Williams & Williams
I gysylltu gyda Dŵr Cymru er mwyn gofyn am wybodaeth ynglŷn â phrofi dŵr yn y cawodydd

13. Cae Chwarae - Adroddiad ROSPA:

Yr oedd adroddiad ROSPA wedi ei dderbyn yn nodi'r canlynol:

- preniau yn rhydd
- y siglen nyth newydd wedi codi
- gripiâu yn rhydd ar y wal ddringo ac angen eu tynhau
- polyn diffoddwyr tan ddim yn cydymffurfio a rheoliadau
- perygl i fysedd cael ei gaethiwo ar y sleid

Hefyd, adroddwyd bod camperfan wedi ei barcio un noson yn y cae chwarae a bod cynghorwyr wedi cloi'r giât gan adael nodyn ar y cerbyd.

Cadwyd adroddiad bod car yn parcio ar dir y cyngor ger y pwmp codi dŵr ar Ffordd y Felin.

PENDERFYNIAD: Y Cyng Bethan Lawton i gysylltu gyda PlayQuest am y siglen newydd.
Y Alan H Jones i roi sgrîw ar y pren sydd yn rhydd.
Contractwr y Cyngor i dorri gwair ger y pwmp codi dŵr a gosod casgen blodau er mwyn rhwystro cerbydau rhag parcio heb ganiatâd ar dir y cyngor.

14. Cae Chwarae - Dyfynbrisiau i osod dau ddrws newydd ar y Pafiliwn a'r ffrâm ddringo:

Nid oedd yr un dyfynbris wedi ei dderbyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- Wedi cyfarfod y Bwrdd Iechyd ac yn eu cyfarfod yn fisol. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn hysbysebu am staff ac erbyn mis Medi bydd yr uned man anafiadau wedi ail agor a nyrs ymarferydd wedi ei benodi/phenodi.
- Adroddwyd bod y Bwrdd Iechyd yn cael trafferthion i ddenu doctoriaid, deintyddion a fferyllwyr a bod bwriad i sefydlu Tywyn fel hwb hyfforddiant.
- Cafwyd wybod y bydd y feddygfa yn cau am bythefnos er mwyn gosod system TG newydd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod y fainc ger yr hysbysfwrdd wedi cyrraedd.

Trafodwyd gosod cyflymder 20 m.y.a. a bod hynny yn medru achub bywydau a'r amgylchedd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth parthed y fainc
I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn gofyn am gysgodfa bws ail law, gan nodi bod rhai newydd wedi eu gosod yn llefydd eraill.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:37pm

Llofnod y Cadeirydd